CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 13 Ionawr 2015 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Owain Owen, Glyn Hughes, Peredur Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Geraint Owen, Ffion Roberts, Ifan Rowlands, Hugh Williams, Cynghorydd Ken Hughes – Talybolion

Ymddiheuriadau John Griffith, Iona Phillips, John T Rowlands

1 Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2014

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2014 gyda Mr Peredur Hughes yn cynnig a Mr Trefor Jones yn eilio.

2 Datgan diddordeb

Cyng Ken Hughes – eitem 4 – cynllunio

3 Materion â codwyd

Dim.

4 Ceisiadau Cynllunio

4.1 47C142A/FR/LB: Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer newid defnydd yr Ysgoldy i annedd ynghyd a chau porth presennol yn / Listed Building Consent for the conversion of the Schoolroom into a dwelling together with closing the existing gateway at : *Schoolroom, Capel Elim, Elim*

Yr oedd hwn yn gais ychwanegol ar gyfer Cais Adeilad Rhestredig. Derbynwyd gyda'r un amodau a mis Rhagfyr 2014.

4.2 47C55A: Cais llawn ar gyfer dymchwel sied bresennol a chreu sylfaen goncrid a chodi stabl ar dir yn / Full application for the demolition of the existing shed and the construction of a concrete base and the erection of a stable at: *Clwch Bach, Trefor*

Dim gwrthwynebiad.

4.3 47C7C: Cais i adnewyddu caniatad cynllunio 47C7B sef newid defnydd yr adeilad allanol i annedd ynghyd a gosod tanc septig yn / Application to renew planning permission 47C7B being change of use of outbuilding into a dwelling together with the installation of a septic tank at: *Clwch Mawr, Trefor*

Dim gwrthwynebiad.

5 Freedom of Information & Data Protection Acts

Hyfforddiant – 29 Ionawr, Caernarfon

Cytunwyd bu'r Clerc yn mynd i'r hyfforddiant yma sydd wedi ei threfnu gan Un Llais Cymru a'r SLCC.

6 Materion ychwanegol

6.1 Mrs Rowlands, Mill View: Roedd pawb yn drist clywed am farwolaeth Mrs Rowlands, Mill View. Roedd yn Fam ag yn Nain i ddau o'r aelodau, bu'r Clerc yn ysgrifennu i gydymdeimlo gyda'r teulu ar ran y Cyngor.

6.2 National Grid: Roedd NG wedi gadael i drigolion Môn a Gwynedd wybod eu penderfyniad i godi llinell o beilonau newydd uwch ben gyda cheblau o dan yr Afon Menai ar hyd coridor llwybr Oren i gysylltu Wylfa Newydd â'r rhwydwaith trydan.

6.3 Ysgol y Llannau: Bu'r Cadeirydd ag Is-Gadeirydd yn mynd i gyfarfod o'r grŵp rhanddeiliaid i drafod diweddariad am y safle ar 19 Ionawr.

6.4 Neuadd Bentref Llanddeusant: Mae'n bryd trafod dyfodol y Neuadd gyda aelodau o'i Phwyllgor.